OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1187

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2012

**Cychwyn Rhan F o Atodlen 4 gydag arbedion**

**3.**—(1) Er i ddiddymiad a dirymiad y cofnodion yn Rhan F o Atodlen 4 ddod i rym yn unol ag erthygl 2(2)(l) ac (m), mae'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yn parhau i gael effaith fel pe baent heb eu dirymu gan y Mesur at y diben a nodir ym mharagraff (3).

(2) Dyma'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 2002(**1**);

(b) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003(**2**);

(c) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004(**3**); a

(d) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007(**4**).

(3) Y diben y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw hawliadau a wneir am lwfansau neu daliadau eraill mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy a gyflawnir cyn 1 Ebrill 1 2012.

(**1**) O.S. 2002/1895.
(**2**) O.S. 2003/895.
(**3**) O.S. 2004/2555.
(**4**) O.S. 2007/1086.